# CODI LLAIS O GAEL
# CODIAD CYFLOG
## TAL Y CYNGOR A'R YSGOL 2023

# PARATOI AR GYFER Y BLEIDAIS

**Mae UNSAIN wedi bod yn ymgyrchu dros godiad cyflog teilwng i weithwyr cyngor a staff ysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fe wnaethom gyflwyno hawliad am godiad cyflog sylweddol o 2% yn uwch na'r chwyddiant (ar sail rhagolwg blynyddol y Trysorlys ar gyfer y Mynegai Prisiau Manwerthu yn 2023, byddai hyn yn 12.7%).**

Fodd bynnag, mae cyflogwyr llywodraeth leol wedi ymateb drwy gynnig cynnydd cyfradd safonol o £1,925. Mewn argyfwng costau byw, dydy hyn ddim yn ddigon da. Mae aelodau UNSAIN mewn llywodraeth leol yn profi'r gostyngiad cyflymaf mewn safonau byw ers dechrau cadw cofnodion – dros y 12 mlynedd diwethaf, mae staff cynghorau ac ysgolion wedi colli 25% ar gyfartaledd o werth eu cyflog o'i fesur yn erbyn mesur chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) ers 2010.

UNISON Cymru Wales

Mae UNSAIN yn cynnal pleidlais ar aelodau sy'n gweithio mewn cynghorau ac ysgolion i ofyn a ydych yn dymuno gweithredu'n ddiwydiannol dros gyflogau. Dim ond drwy weithredu y byddwn yn anfon neges glir at gyflogwyr i roi gwybod iddyn nhw eich bod angen codiad cyflog gwell.

Mae cyfreithiau'r Llywodraeth yn golygu bod angen i o leiaf 50% o aelodau UNSAIN ddychwelyd eu papur pleidleisio pan fydd y bleidlais yn agor er mwyn i ni gael mandad ar gyfer streicio'n gyfreithlon.

Mae'n amser paratoi ar gyfer streicio nawr! Dyma rai pethau syml a hawdd y gallwch chi eu gwneud heddiw:

### ▶ Cael eich cydweithwyr i gymryd rhan

Siaradwch â'ch cydweithwyr am y mater ac annog unrhyw gydweithwyr newydd i ddod yn aelod o UNSAIN – dim ond 5 munud mae'n ei gymryd i ymuno. Ymunwch yma: **https://join.unison.org.uk**

### ▶ Sicrhau bod eich manylion yn gyfredol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn diweddaru eich manylion cyswllt – gallwch weld pa fanylion sydd gennym drwy ddefnyddio MyUNISON: **www.unison.org.uk/my-unison**

### ▶ Rhannu'r neges ar gyfryngau cymdeithasol

Gallwch godi ymwybyddiaeth o'r mater ac annog eich cydweithwyr, eich ffrindiau a'ch teulu i gymryd rhan drwy rannu eich cefnogaeth gan ddefnyddio'r hashnod **#payup2023**

### ▶ Cysylltu â'ch cynghorydd

Gall cynghorwyr lleol godi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda chyflogwyr llywodraeth leol, felly gofynnwn i chi anfon e-bost at eich cynghorydd a'i berswadio i ddefnyddio ei ddylanwad i gefnogi codiad cyflog teilwng i'r staff gweithgar sy'n gweithio'n ddiflinio i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol **https://action.unison.org.uk/page/120529/action/1**

### ▶ Edrych ar ein map rhyngweithiol

Gyda chynghorau'n wynebu prinder cyllid, mae angen i ni sicrhau bod y llywodraeth yn buddsoddi'n well mewn llywodraethau lleol i dalu am wasanaethau a chodiad cyflog teilwng i weithwyr cyngor a staff ysgolion. Lobïwch eich AS drwy glicio ar ein map rhyngweithiol ac anfon y neges hon atynt. Dim ond drwy gyllid gwell y gallwn sicrhau cyflogau gwell - **https://councilcuts.unison.org.uk/data-visualisation/p/1**

## Mae'n bryd codi llais i gael codiad cyflog – ac mae angen i chi chwarae eich rhan. Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgyrch ar gael yn:

## unison.org.uk/payup2023

UNISON Cymru Wales

Produced by UNISON, UNISON Centre, 130 Euston Road, London NW1 2AY CU/March 2023/27248